**CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR** a gynhaliwyd nos Fercher, 10 Mai 2023, trwy gyfrwng cyfarfod hybrid, yn dechrau am 6.00pm.

**PRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs D. L. King (Maer)

Y Cynghorwyr M. Blackwell, Mrs M. Blakeley-Walker, Mrs J. Butterfield YH MBE, Mrs J. Chamberlain-Jones, Mrs E. M. Chard, Ms J. M. Evans, S. Feeney, A. R. James, K. R. Jones, Mrs P. M. Jones, Ms J. L. McAlpine, B. Mellor, Mrs W. M. Mullen-James, P. Prendergast, Miss S. L. Roberts, Ms V. Roberts, A. J. Rutherford, D. Simmons, A. Walker a Miss C. L. Williams.

Gareth Nickels – Clerc y Dref

## 1. AGOR Y CYFARFOD AC YMDDIHEURIADAU

Gwnaeth Caplan y Maer newydd, y Parchedig Chris Spencer, ddechrau'r noson drwy arwain pawb a oedd yn dymuno cymryd rhan mewn gweddi.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Miss H. J. Windus - Dirprwy Glerc y Dref.

Croesawodd y Maer bawb i'r cyfarfod, yn enwedig y gwesteion dinesig a chynrychiolwyr ei helusennau.

## 2. ETHOL Y MAER A'I SEFYDLU

Cyflwynodd y Cynghorydd King grynodeb o'i blwyddyn yn y swydd a mynegodd ei gwerthfawrogiad o gael yr anrhydedd o fod yn Faer y Rhyl a diolchodd i'r Tad Nnamah (ei Chaplan); ei theulu a'i ffrindiau am eu cefnogaeth a werthfawrogwyd yn fawr drwy gydol ei chyfnod yn y swydd a soniodd yn benodol am ei chonsort, y Cynghorydd P. Prendergast am ei gymorth a'i gefnogaeth ddiflino, y Dirprwy Faer, y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ai'i chyd-gynghorwyr.

Cyflwynodd y Cynghorydd King drosolwg o'i blwyddyn fel Maer, gan dynnu sylw at y digwyddiadau isod:

- Dathlu Jiwbilî Platinwm y diweddar Frenhines Elizabeth II;
- Rownd derfynol Prydain dramâu un act a gynhaliwyd yn Theatr y Pafiliwn;
- Agoriad swyddogol yr ardd synhwyraidd yn Ysgol Christchurch;
- Codi Baner Werdd Gwobr Gymunedol yn y Marine Lake
- Bod yn bresennol yn y 'Diwrnod Oren' yng Nghanolfan Fenywod Gogledd Cymru
- Sioe Awyr y Rhyl
- Lansio'r ymgyrch codi arian i elusen trwy fenter y "Pantri Bach" yn Ysgol Christchurch i fynd i'r afael â'r angen cynyddol am fanciau bwyd
- Mynd gyda phlant ysgol lleol i adael marc ar y trawstiau dur i'w gosod yn ystod prosiect ailddatblygu Marchnad y Frenhines
- Bod yn bresennol yn y digwyddiad i ddathlu pen-blwydd Cangen Glan Clwyd o Sefydliad Prydeinig y Galon yn 40 oed
- Cefnogi digwyddiadau a drefnwyd gan fenter BID y Rhyl

- Beirniadu cystadluaeth Ffenestri Nadolig y Cyngor Tref
- Ei digwyddiad olaf yn cynnal Diwrnod Calan Mai Maer y Rhyl a oedd hefyd yn dathlu coroni'r Brenin Charles III a'r Frenhines Camilla.

Yna gofynnodd y Cynghorydd King i'r cyfarfod gofio'r bobl a gollwyd yn ystod y flwyddyn, yn enwedig marwolaeth Ei Mawrhydi y Frenhines Elizabeth II a'r Cynghorydd Brian Blakeley, un o hoelion wyth y gymuned a dreuliodd ei fywyd yn cynrychioli pobl y Rhyl.

I gloi dywedodd y Maer bod ei blwyddyn wedi bod yn brofiad wnaeth wneud iddi deimlo'n ddiymhongar iawn yn gweld calon ac enaid cymuned y Rhyl a bod yn dyst i'r cyfraniadau rhagorol a wneir gan ein trigolion amrywiol yn uno gyda'i gilydd i sicrhau dyfodol disglair a chadarnhaol i'r dref.

Cyhoeddodd y Cynghorydd King ei bod wedi casglu £1,126.08 i Ganolfan Fenywod Gogledd Cymru a £563.04 yr un i Gymdeithas Alzheimer Cymru a'r RNLI yn ystod ei blwyddyn fel Maer.

Cyflwynwyd tystysgrifau yn cydnabod y symiau hyn i:

Ms Lucy Chard a Ms Katrina Jones yn cynrychioli Canolfan Fenywod Gogledd Cymru;
Mr Andrew Hall yn cynrychioli'r Gymdeithas Alzheimer; a
Mr Callum Robinson yn cynrychioli'r RNLI

Aeth y Cynghorydd King ymlaen i dalu teyrnged i'r Cynghorydd Mrs P. M. Jones a oedd wedi hysbysu am ei bwriad i ymddeol o'r Cyngor ar ddiwedd y cyfarfod hwn.

Dywedodd y Cynghorydd King, er nad oedd wedi adnabodd y Cynghorydd Jones gyhyd â rhai o'i chyd-gynghorwyr, roedd hi wedi cael y pleser mawr o'i hadnabod ers iddi ddod yn gynghorydd tref yn 2017.

Dywedodd bod y Cynghorydd Jones yn gynghorydd profiadol gyda bron i 30 mlynedd o brofiad, felly roedd hi mewn sefyllfa dda i'w mentora hi yn ôl yn 2017 a dweud wrthi bopeth roedd arni angen ei wybod am ward Cefndy a'i thrigolion.

Rhai o lwyddiannau'r Cynghorydd Jones fu datblygu darpariaeth cinio ysgol am ddim i blant yn un o ardaloedd mwyaf amddifadus y dref, sefydlu'r Ganolfan Ffenics a sefydlu'r caeau chwarae a'r ganolfan gymuned.

Roedd y Cynghorydd Jones wedi gweithio'n ddiflino i wella'r sefyllfa i eraill ac wedi ymgyrchu o blaid cyfiawnder cymdeithasol am y 30 mlynedd ddiwethaf, ac nid oedd ganddi air gwael am neb.

Mae pawb sy'n ei hadnabod yn ei pharchu'n fawr. Mae'n berson pobl gyda safonau deallusrwydd emosiynol uchel iawn, sy'n cael ei adlewyrchu ym mhopeth mae hi'n ei wneud, p'un ai gyda'i theulu neu fel rhan o'i gwaith cyngor.

Nododd y Cynghorydd King petai hi'n cyflawni cyfran fechan o'r hyn a gyflawnodd y Cynghorydd Jones byddai'n hapus iawn.

Diolchodd y Cynghorydd Jones i'r Cynghorydd King am ei geiriau caredig iawn, a diolchodd i'w holl gyd-gynghorwyr presennol ac yn y gorffennol am eu cyfeillgarwch.

Dywedodd y Cynghorydd Jones fod hon yn foment drist, gan fod 30 mlynedd yn gyfnod hir, ond ei bod yn amser iddi fynd.

Diolchodd y Cynghorydd Jones i Glerc y Dref, a fu'n Glerc gwych i'r Cyngor meddai.

Dywedodd y Cynghorydd Mrs Joan Butterfield fod hon yn garreg filltir, fel ffrind a chyd-gynghorydd am 30 mlynedd, a diolchodd i'r Cynghorydd Jones am ei chyfeillgarwch a'i gofal a dymunodd yn dda iddi yn ei hymddeoliad.

Cyfeiriodd y Cynghorydd King at flodau ac anrheg gan gynghorwyr a staff y byddai'r Cynghorydd Prendergast yn eu danfon i'w chartref yfory.

Yn unol â pholisi'r cyngor ar benodiadau blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau am swydd y Maer am y flwyddyn ddinesig 2023/2024.

Cynigiodd y Cynghorydd P. Prendergast ac eiliodd y Cynghorydd S. Feeney enwebu'r Cynghorydd Ms J. L. McAlpine.

***<u>PENDERFYNWYD</u>*** *ethol y Cynghorydd McAlpine.*

Yna gwnaeth y Maer a oedd yn ymddeol, y Cynghorydd King, drosglwyddo'r awennau i'r Cynghorydd McAlpine.

Yna darllenodd y Cynghorydd McAlpine y datganiad derbyn y swydd yn uchel a llofnodi'r datganiad.

Diolchodd y Maer newydd i'w chynigydd a'i heilydd am ei henwebu ac am eu geiriau caredig. Cadarnhaodd mai ei chonsort fyddai Ms. Charlotte Taylor-Smith a'i Chaplan fyddai'r Parchedig Chris Spencer.

Mynegodd y Maer newydd ei gwerthfawrogiad ar ran y Cyngor o gyfraniad y Maer a oedd yn ymddeol, a chyflwynodd blac Arfbais y Dref, Medal cyn-Faer a blodau iddi. Cyflwynodd y Maer botel o win i gonsort y Maer a oedd yn ymddeol i gydnabod ei gefnogaeth i'r Maer yn ystod ei blwyddyn yn y swydd.

Yna cyfarchodd y Maer newydd y Cyngor a chynghori ei bod yn ymwybodol iawn o'r pwysau aruthrol roedd pobl yn ein cymuned yn ei wynebu ar hyn o bryd oherwydd yr argyfwng costau byw cyfredol, a'i nod oedd blaenoriaethu hyrwyddo mudiadau sy'n cynnig cymorth. Adlewyrchwyd hyn yn yr elusennau a ddewisiwyd ganddi ar gyfer ei blwyddyn, sef Siop Cyngor ar Fudd-daliadau y Rhyl sy'n cynnig cymorth a chyngor hanfodol bwysig i'r rhai mwyaf bregus yn y gymuned, a Chadetiaid y Môr y Rhyl am eu gwaith yn cynnig cyfloedd gwych i bobl ifanc gyda chefndir demograffig amrywiol. I gloi, dywedodd y Cynghorydd McAlpine ei bod yn bwriadu defnyddio ei chyfnod fel Maer i ledaenu ymdeimlad o gynhwysiant a chydlyniad yn y dref a'i bod yn edrych ymlaen at y flwyddyn.

**3. ETHOL DIRPRWY FAER**

Yn unol â pholisi'r cyngor ar benodiadau blynyddol, gwahoddodd y Maer enwebiadau i ethol Dirprwy Faer ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023/24.

Cynigiodd y Cynghorydd Mrs J. Butterfield YH MBE ac eiliodd y Cynghorydd Mrs E. Chard enwebu'r Cynghorydd Miss C. L. Williams.

***PENDERFYNWYD*** *ethol y Cynghorydd Williams.*

Rhoddodd y Maer gadwyn y swydd i'r Cynghorydd Williams a'i gwahodd i lofnodi'r Datganiad Derbyn y Swydd.

Wedi gwneud hyn diolchodd y Dirprwy Faer i aelodau'r Cyngor am ei henwebu a chynghorodd mai ei chonsort fyddai Mrs Ann Jones.

Cyflwynodd y Maer flodau i'r Cynghorydd Williams a bathodyn y swydd a blodau i Mrs Ann Jones.

**4. COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd isod y cyngor a'i bwyllgorau i'w cymeradwyo fel cofnodion cywir:

Y Cyngor - 19 Ebrill 2023 - Cofnodion rhifau 161-169

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Mrs D. L. King ac eiliwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 19 Ebrill 2022 - Cofnodion rhifau 54 - 56

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd D. Simmons a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Y Pwyllgor Cynllunio - 3 Mai 2023 - Cofnodion rhifau 57 - 59

Cynigiwyd gan y Cynghorydd Ms J. L. McAlpine ac eiliwyd gan y Cynghorydd D. Simmons a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir.*

Cadarnhau neu fel arall:

Y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol - 3 Mai 2023 - Cofnodion rhifau 65 - 73

Cynigiwyd gan y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliwyd gan y Cynghorydd B. Mellor a ***PHENDERFYNWYD*** *eu bod yn gofnod cywir a chadarnhawyd eu gweithredu.*

**5. PENODI AELODAU I BWYLLGORAU / IS-BWYLLGORAU / LLYWODRAETHWYR YSGOL YM MLWYDDYN DDINESIG 2023/24**

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gadarnhau'r penodiadau fel y nodwyd yn y rhestr (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

Cynigiodd y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliodd y Cynghorydd Mrs D. L. King y cais a ***PHENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r penodiadau, yn ddarostyngedig i gyfeirio llywodraethwr ysgol i Ysgol Emmanuel i'r Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol ei ystyried.*

**6. ETHOL CADEIRYDD – Y PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL**

Yn unol â pholisi'r cyngor ar benodiadau blynyddol gwahoddodd y Maer enwebiadau am Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023/2024.

Cynigiodd y Cynghorydd Ms. J. McAlpine ac eiliodd y Cynghorydd P. Prendergast benodi'r Cynghorydd A. J. Rutherford.

***PENDERFYNWYD*** *ethol y Cynghorydd Rutherford.*

**7. ETHOL IS-GADEIRYDD – Y PWYLLGOR CYLLID A MATERION CYFFREDINOL**

Yn unol â pholisi'r cyngor ar benodiadau blynyddol gwahoddodd y Maer enwebiadau am Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023/2024.

Cynigiodd y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliodd y Cynghorydd Mrs D. L. benodi'r Cynghorydd B. Mellor.

***PENDERFYNWYD*** *ethol y Cynghorydd Mellor.*

**8. ETHOL CADEIRYDD – Y PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Yn unol â pholisi'r cyngor ar benodiadau blynyddol gwahoddodd y Maer enwebiadau am Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023/2024.

Cynigiodd y Cynghorydd P. Prendergast ac eiliodd y Cynghorydd Mrs D. L. King benodi'r Cynghorydd Ms J. L. McAlpine.

***PENDERFYNWYD*** *ethol y Cynghorydd McAlpine.*

**9. ETHOL IS-GADEIRYDD – Y PWYLLGOR CYNLLUNIO**

Yn unol â pholisi'r cyngor ar benodiadau blynyddol gwahoddodd y Maer enwebiadau am Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023/2024.

Cynigiodd y Cynghorydd P. Prendergast ac eiliodd y Cynghorydd Mrs J. L. McAlpine benodi'r Cynghorydd D. Simmons.

***PENDERFYNWYD*** *ethol y Cynghorydd Simmons.*

**10. ETHOL CADEIRYDD – Y PWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL A GWEITHREDOL**

Yn unol â pholisi'r cyngor ar benodiadau blynyddol gwahoddodd y Maer enwebiadau am Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023/2024.

Cynigiodd y Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James ac eiliodd y Cynghorydd A. R. James benodi'r Cynghorydd A. J. Rutherford.

***PENDERFYNWYD*** *ethol y Cynghorydd Rutherford.*

**11. ETHOL IS-GADEIRYDD – Y PWYLLGOR CYNLLUNIO STRATEGOL A GWEITHREDOL**

Yn unol â pholisi'r cyngor ar benodiadau blynyddol gwahoddodd y Maer enwebiadau am Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023/2024.

Cynigiodd y Cynghorydd Mrs D. L. King ac eiliodd y Cynghorydd Mrs E. M. Chard benodi'r Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James.

***PENDERFYNWYD*** *ethol y Cynghorydd Mullen-James.*

**12. CYFLWYNO BATHODYNNAU GWASANAETH HIR**

Cyflwynodd y Maer Fathodyn Dinesig y Cyngor i'r Cynghorydd Mrs W. M. Mullen-James a'r Cynghorydd A. J. Rutherford ar ran y cyngor i ddynodi eu 12 mlynedd o wasanaeth i'r Cyngor Tref a chymuned y Rhyl.

**13. PENODI CYNRYCHIOLWYR AR FUDIADAU ALLANOL**

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gadarnhau'r penodiadau fel y nodwyd yn y rhestr (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

Cynigiodd y Cynghorydd A. R. James ac eiliodd y Cynghorydd Miss S. L. Roberts dderbyn hyn a ***PHENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r penodiadau gyda swyddi gwag i'w cyfeirio at y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol i'w hystyried.*

**14. PENODI HYRWYDDWR IEUENCTID CYNGOR TREF Y RHYL**

Yn dilyn cofnod rhif 57 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 5 Ebrill 2023, gwahoddodd y Maer enwebiadau i benodi aelod fel Hyrwyddwr Ieuenctid y Cyngor Tref ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2023/24.

Dywedodd Clerc y Dref ei fod wedi cael ei hysbysu fod aelod (y Cynghorydd K. R. Jones) wedi mynegi diddordeb yn ymgymryd â'r swydd yn unol â'r Disgrifiad Swydd cymeradwy.

Cynigiodd y Cynghorydd J. L. McAlpine ac eiliodd y Cynghorydd D. L. King hyn a ***PHENDERFYNWYD*** *penodi'r Cynghorydd K. R. Jones fel Hyrwyddwr Ieuenctid Cyngor Tref y Rhyl.*

## 15. **DYNODI DYLETSWYDDAU CYMERADWY**

Gofynnodd y Maer am gadarnhad o bresenoldeb yn y digwyddiadau isod gan gynrychiolwyr a benodwyd:

- Hyfforddiant i Gadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Cyngor a'i bwyllgorau sefydlog
- Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru (a'r Pwyllgor Cludiant Rhanbarthol cysylltiedig)
- Sir Ddinbych Gynaliadwy
- Grŵp Cyfeirio Prosiect Gogledd Sir Ddinbych Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Presenoldeb y Maer neu'r Dirprwy Faer mewn digwyddiadau dinesig yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Chonwy.

a'u dynodi yn ddyletswyddau cymeradwy.

Cynigiodd y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliodd y Cynghorydd D. Simmons hyn a ***PHENDERFYNWYD*** *cadarnhau'r dyletswyddau cymeradwy.*

## 16. **AMSERLEN CYFARFODYDD**

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gadarnhau'r amserlen cyfarfodydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023/2024 fel y dangoswyd yn yr amserlen (a ddosbarthwyd gyda'r agenda).

Cynigiodd y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliodd y Cynghorydd B. Mellor hyn a ***PHENDERFYNWYD*** *cymeradwyo'r amserlen.*

## 17. **LLOFNODWYR**

Gofynnodd y Maer i'r aelodau gadarnhau llofnodwyr cyfrif cyfredol a chyfrif buddsoddi'r cyngor ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023/2024.

Cynigiodd y Cynghorydd A. J. Rutherford ac eiliodd y Cynghorydd B. Mellor gadarnhau'r llofnodwyr fel:

Y Maer a'r Dirprwy Faer fel Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Materion Cyffredinol
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio
Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio Strategol a Gweithredol

Ynghyd ag un o'r swyddogion a ganlyn:

Clerc y Dref
Dirprwy Glerc y Dref
Y Swyddog Cyllid

***PENDERFYNWYD*** *cadarnhau'r llofnodwyr.*

## 18. DIWEDD Y CYFARFOD

Gan nad oedd rhagor o eitemau busnes i'w trafod cyhoeddodd y Maer bod y cyfarfod wedi diweddu.

Y Maer: ……..…………………..

Dyddiad: …..21.06.2023………..